

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020

Mawrth 2016



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park

Rhagarweiniad

3

Sut y datblygwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb

4

Ein Hamcanion a'n Gweithredoedd Cydraddoldeb

8

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

10

Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth

11

Gwybodaeth gefndir

13

Mapio

A yw Cymru'n decach?

Crynodeb o'r ymgynghoriad

**Gwybodaeth gefndir am y Parc Cenedlaethol ac Awdurdod y Parc
Deddf Cydraddoldeb 2010**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion,
Doc Penfro,
Sir Benfro
SA72 6DY

01646 624800
pcap@arfordirpenfro.org.uk
arfordirpenfro.cymru



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**

Rhagarweiniad

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf ym mis Mawrth 2012, ac fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, rydym wedi cynnal adolygiad i'w ddiweddarau.

Poblogaeth Sir Benfro yw 120,000 er mai dim ond 25,000 o'r boblogaeth sy'n byw yn ardal y Parc Cenedlaethol. Anodd yw clustnodi cynrychiolaeth a data lleol am unrhyw un o'r grwpiau nodweddion, ac yn amlach na heb nid yw'r nodweddion hyn i'w gweld yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Sut y datblygwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb

I wneud yr adolygiad hwn, cyfeiriwyd at ddwy ffynhonnell newydd o wybodaeth – ‘A yw Cymru’n decach?’ gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, ac ymgynghoriad ac arolwg aml-asiantaeth a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o’r cyrff cyhoeddus yn ne a gorllewin Cymru. Rheolwyd yr arolwg gan Gyngor Sir Caerfyrddin a chafodd ei wneud yn ystod ail hanner 2015.

Nododd ‘A yw Cymru’n decach?’ saith her allweddol:-

Cau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.

Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth.

Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol.


Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd.

Atal cam-drin, esgeulustod a chamdriniaeth mewn lleoliadau gofal a chadw.

Dileu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned.

Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy’n profi problemau iechyd meddwl.


Roedd yr ymgynghoriad aml-asiantaeth yn cwmpasu deg maes



(A elwir yn barthau yn yr adroddiad. Mae rhagor o fanylion ar dudalennau 16 a 17)

Pedwar Themâu Allweddol

Roedd yn amlwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad bod themâu allweddol a chlr a oedd yn gyffredin i bob un o'r sefydliadau a gymerodd ran:-



Cynllunio corfforaethol yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Mae rôl a dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar gadwraeth a mwynhad o ardal y Parc Cenedlaethol. Nid yr Awdurdod yw'r prif gorff cyhoeddus sydd â dyletswyddau yn y 'parthau' a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Law yn llaw â'r **Cynllun Cydraddoldeb** hwn, mae'r Awdurdod hefyd yn paratoi **Cynllun Corfforaethol** blynyddol. Mae cynllun 2016/17 wedi'i baratoi yn unol â nodau llesiant Llywodraeth Cymru sydd i'w cael yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r cynllun corfforaethol yn cynnwys amcanion llesiant yr Awdurdod.

Drwy fapio'r themâu perthnasol a'r heriau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad ac yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gallwn weld sut yr oedd ein gwaith a'n gweithgareddau presennol yn cyfrannu at gydraddoldeb ar gyfer y boblogaeth leol a'r gynulleidfa 'genedlaethol' ehangach o ymwelwyr. Mae'r broses fapio i'w gweld ar dudalen 8.

Mae'r broses hon, ynghyd â gwybodaeth a phrofiad presennol yr Awdurdod o ymgynghoriadau blaenorol, gan gynnwys y **Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**, wedi ein galluogi i weld yn well beth sydd ei angen yn y Cynllun Cydraddoldeb hwn. Rydym wedi clustnodi meysydd lle gall y Cynllun Cydraddoldeb ategu'r cynllun corfforaethol i gryfhau ein hagwedd at yr heriau cydraddoldeb.

Wrth fynd i'r afael â'r amcanion hyn, byddwn yn cymryd i ystyriaeth ganfyddiad yr ymgynghoriad aml-asiantaeth sy'n awgrymu bod pobl anabl, pobl LHD, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl drawsrywiol wedi cael profiadau gwaeth yn 2015 ar draws y deg parth.

Ceir yr amcanion hyn a'r camau gweithredu perthnasol isod.

Ein Hamcanion a'n Gweithredoedd Cydraddoldeb



Amcan 1:

Parhau i chwalu'r rhwystrau a glustnodwyd ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau APCAP

- Ymateb i bryderon a fynegwyd gan y cyhoedd ynghylch mynediad.
- Parhau i fireinio'r broses o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EIAs).
- Parhau i weithredu ein polisiau Cynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Ymhlith Plant, a'r cynllun gweithredu.
- Datblygu ein capasiti i ddarparu gwell gwasanaethau i grwpiau penodol, fel gwasanaethau sy'n briodol i bobl â dementia, ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL)
- Gweithio gyda Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru a grwpiau iechyd eraill i'w hannog i ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol.



Amcan 2:

Hybu lefelau uwch o gyfranogiad o gymunedau a rhanddeiliaid eraill yn y broses benderfynu yn APCAP

- Cynllun mentora i annog ceisiadau ar gyfer penodiadau Llywodraeth Cymru oddi wrth amrywiaeth eang o grwpiau.
- Datblygu sgiliau'r staff mewn ymgysylltu â'r cyhoedd.



Amcan 3:

Meithrin lefel o ddealltwriaeth o faterion cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder ymhlith staff ac aelodau fel sy'n gweddu i sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru

- Cynnal cylch parhaus o waith codi ymwybyddiaeth, sy'n cynnwys troseddau casineb a thrais.



Amcan 4:

Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngweithlu APCAP

- Sicrhau bod yr Awdurdod yn recriwtio o amrywiaeth eang o ymgeiswyr ac yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos potensial.
- Gweithio i wella'n gwaith monitro cyflogaeth a data am gyflogau, a'n gallu i ddadansoddi'r data er mwyn cymryd camau adfer yn unol â'r hyn a glustnodwyd.
- Sicrhau bod swyddi'n cael tâl teg, gan gynnwys parhau i dalu'r Cyflog Byw (oni bai na ellir ei fforddio).
- Parhau i gynnig cyfleoedd i hyfforddeion.
- Ystyried mabwysiadu cynllun mynegai yn y gweithle, megis Buddsoddwyr mewn Amrywiaeth, Stonewall, a chynllun tic dwbl yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau er mwyn gallu asesu'r effaith tebygol gaiff unrhyw bolisiau ac arferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd ag effaith unrhyw bolisiau neu arferion y penderfynwyd gennym i'w hadolygu neu unrhyw fwriad i ddiwygio polisiau neu arferion.

Am bob polisi neu arfer newydd (neu adolygu polisi neu arfer presennol) bydd yr Awdurdod yn asesu'r effaith tebygol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig drwy wneud asesiad sgrinio cychwynnol.

Os yw'r polisi neu arfer yn debygol o gael effaith, gwneir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb, a chaiff adroddiad ei lunio ar yr asesiad hwnnw. Bydd pob adroddiad ar asesiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- pwrpas y polisi neu'r arfer sy'n cael ei asesu, ac ai polisi newydd neu bolisi sydd eisoes yn bod ydyw sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio;
- crynodeb o'r camau a gymerwyd i asesu effaith tebygol y polisi neu arfer arfaethedig neu ddiwygiedig;
- crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei hystyried fel rhan o'r broses asesu;
- canlyniadau'r asesu; ac
- unrhyw benderfyniadau a gymerwyd yn dilyn yr asesu.

Lluniwyd ffurflen newydd ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb ac mae'r staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar sgrinio ac ar gynnal aseidiadau llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Byddwn yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar ganlyniadau'r aseidiadau a wnaed.

Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth

Bydd y camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun hwn sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu monitro'n rheolaidd. Cyflwynir adroddiadau ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol yn flynyddol.

Bydd pob asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'i wneud ar unrhyw bolisi neu arfer newydd neu ddiwygiedig yn cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod ar ei wefan. Hefyd, bydd crynodeb o bob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol.

Hefyd mae'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad yn flynyddol a gwneud datganiadau ar y cynnydd a wnaed ar y canlynol:

- y camau y mae'r Awdurdod wedi eu cymryd i glustnodi a chasglu gwybodaeth berthnasol;
- o ran y wybodaeth sydd gan yr Awdurdod, sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno at ddibenion cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau yn y rheoliadau;
- y rhesymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol a glustnodwyd fel gwybodaeth berthnasol ond nad yw yn ei feddiant;
- y cynnydd a wnaed o ran llwyddo i gyflawni pob un o'r amcanion cydraddoldeb;
- datganiad am effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer clustnodi a chasglu gwybodaeth berthnasol, a'r camau a gymerwyd tuag at lwyddo i gyflawni pob un o'r amcanion; a'r
- wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei chyhoeddi mewn perthynas â gwybodaeth am gyflogaeth.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn mewn grym am 4 blynedd, ond fe'i hadolygir a'i ddiwygio fel bo angen.

Gwybodaeth gefndir



Croesgyfeirio'r Nodau a'r Amcanion Llesiant

	EHRC A yw Cymru'n decach?	Themâu'r ymgyngoriad	Cynllun Corfforaethol APCAP: Amcanion Llesiant
Cymru lewyrchus	Cyrhaeddiad addysgol		Hybu a chefnogi datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.
Cymru gydnerth			Hyrwyddo a datblygu'r defnydd o reoli ecosystemau
Iechyd	Gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl		Galluogi ac annog rhagor o bobl i wella eu llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol, waeth beth yw eu hamgylchiadau
Cydraddoldeb	Recriwtio a gwobrwyo; Cyfiawnder a democratiaeth; Cam-drin ac aflonyddu	Cyfathrebu; Hygyrchedd gwasanaethau; Ymwybyddiaeth staff Cydweithio	
Cymuned	Amodau byw; Cymunedau cydlynus; Tlodi; Triniaeth mewn gofal		Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol
Iaith a diwylliant			Diogelu a hyrwyddo diwylliant ieithyddol, celfyddydau a, threftadaeth lleol yr ardal
Egwyddorion datblygu strategol (cydlafurio, integreiddio a chyfranogiad)			

A yw Cymru'n decach?

Cyhoeddwyd 'A yw Cymru'n decach?' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Hydref 2015.

Nododd yr adroddiad saith her allweddol a dywedodd

"Mae'r rhain yn anghydraddoldebau a champau hawliau dynol mawr, disymud fydd yn galw am ymdrech sylweddol gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac unigolion i'w lleihau".

Mae'r Comisiwn yn *"annog pawb sydd eisiau gwneud Cymru yn wlad decach i ymateb i'r heriau allweddol"*.

1. Cau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.

Cau bylchau cyrhaeddiad drwy godi safonau plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithwyr. Lleihau eithriadau o'r ysgol a lleihau bwlio.

2. Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg mewn cyflogaeth.

Cynyddu cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc, pobl anabl, pobl lleiafrifoedd ethnig a Mwslimiaid. Cau'r bwch cyflog gan ganolbwyntio ar bobl ifanc, pobl lleiafrifoedd ethnig a menywod.

3. Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol.

Lleihau tlodi yn enwedig ymysg plant, pobl anabl a phobl lleiafrifoedd ethnig. Gwella mynediad at ofal i bobl hŷn a phlant. Lleihau digartrefedd, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sy'n dianc o drais domestig a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl neu anabledau dysgu.

4. Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd.

Sicrhau mynediad cyfartal ac effeithiol i gyfiawnder sifil i bawb. Gwella cyfranogiad gwleidyddol a sifil a chynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus.

5. Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl.

Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Lleihau'r gyfradd o hunanladdiad yn arbennig ymysg dynion.

6. Atal cam-drin, esgeulustod a chamdriniaeth mewn lleoliadau gofal a chadw.

Atal cam-drin, esgeuluso a chamdriniaeth o blant a phobl hŷn mewn ysbytai a chartrefi gofal. Diogelu hawliau dynol pobl yn y ddalfa.

7. Diddymu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned.

Dileu achosion o drais, cam-drin ac aflonyddu yn arbennig yn erbyn menywod, pobl anabl, pobl lleiafrifoedd ethnig, pobl Fwslimaidd a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

Linc i'r ddogfen <http://www.equalityhumanrights.com/cy/publication/yw-cymrun-decach>

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad aml-asiantaeth

Cynhaliodd consortiwm o nifer o'r cyrff cyhoeddus yn ne-orllewin Cymru a Phowys broses eang o ymgynghori â'r cyhoedd. Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yn arwain yr ymgynghoriad ac roedd yn agored i staff, partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Roedd yn cynnwys arolwg cynhwysfawr a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn y pedair sir.

Roedd yn amlwg o'r adborth a gafwyd bod themâu allweddol a chdir a oedd yn gyffredin i bob un o'r sefydliadau a gymerodd ran:-

Cyfathrebu: rhwng sefydliadau, a rhwng sefydliadau a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt ac yn gwybod sut i gymryd rhan yng ngwaith sefydliadau. Mae angen i'r dull o gyfathrebu fod yn addas i anghenion pobl, yn enwedig o ran ieithoedd (gan gynnwys BSL) a fformatau eraill.

Hygyrchedd: o ran adeiladau, gwasanaethau a gwybodaeth. Pwysleisir yr angen i sefydliadau cyhoeddus ystyried pa mor hygyrch y maent.

Ymwbyddiaeth staff: mae hyn yn allweddol i wneud yn siŵr bod pobl o grwpiau a warchodir yn cael profiad cadarnhaol o'r gwasanaethau.

Cydweithio: cymunedau a sefydliadau yn cydweithio i helpu i ddatblygu cymunedau mwy cydlynus.

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg o ran y grwpiau a warchodir:-

Pobl anabl i bob golwg, sy'n cael y profiadau gwaethaf yn gyffredinol ar draws y deg parth, er yn arbennig mewn perthynas â mynediad at drafnidiaeth, mynediad cymdeithasol, hamdden a mynediad i gefn gwlad a chyflogaeth. Ar ben hynny, mae'r canlyniad cyffredinol yn weddol agos at y canlyniad gan bobl anabl eu hunain, sy'n awgrymu dealltwriaeth gyffredinol o'r materion y gallai pobl anabl fod yn eu hwynebu. Ystyrir yn gyffredinol nad yw gwrywod, benywod, pobl sengl, rhai mewn perthynas a'r rhai sydd â chrefydd neu gred yn cael profiadau sydd ddim yn well nac yn waeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Nid yw'n ymddangos fod unrhyw grŵp yn cael profiadau cyffredinol gwell, er yr ystyrir bod pobl iau yn cael gwell profiadau addysg, ac ystyrir bod menywod beichiog neu'r rhai sydd newydd roi genedigaeth yn cael gwell profiadau o ran iechyd, tai, a mynediad at ofal a chymorth.

Gellir crynhoi'r canlynol mewn perthynas â'r deg parth:

Iechyd: pobl hŷn, trawsrywiol a phobl anabl yw'r grwpiau yr ystyrir bod ganddynt y profiadau gwaethaf. Mae pobl LHD yn dweud eu bod yn cael profiadau gwaeth na chanfyddiadau'r cyhoedd. Yn arwyddocaol, roedd yr ymatebwyr gyda chyfrifoldebau gofalu yn meddwl bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth nag oedd y canlyniadau cyffredinol yn ei awgrymu.

Addysg: ystyrir mai pobl anabl, pobl hŷn, trawsrywiol, pobl LHD a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael y profiadau gwaethaf. Wrth ystyried realiti byw, dywedodd pobl LHD a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig eu bod yn cael profiadau

sylweddol waeth na chanfyddiad ymatebwyr eraill. Mae sylwadau yn awgrymu bod yna broblemau o ran rhagfarn, a rhwystrau mynediad.

Tai: mae canfyddiad bod Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r rheiny sy'n feichiog (neu gyda phlant ifanc) yn cael gwell profiadau. Ystyrir mai pobl iau a sengl sy'n cael y profiadau gwaethaf. Wrth ystyried profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r rhai ar gyfer pobl anabl ac LHD yn sylweddol waeth, gan awgrymu profiadau gwaeth ar gyfer tai ar gyfer y ddau grŵp hyn.

Mynediad at drafnidiaeth: credir bod pobl anabl (yn benodol) a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, ond ystyrir bod grwpiau eraill yn cael profiadau sydd ddim gwell na gwaeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Mae gofawyr yn credu bod pobl hŷn, a phobl anabl yn cael profiadau gwaeth nag ymatebwyr yn gyffredinol.

Troseddu a mynediad at gyfiawnder: credir bod nifer o'r grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig yn cael profiadau gwaeth; yn arbennig, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl drawsrywiol, iau. Yn nhermau profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r canlyniadau ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, pobl LHD a phobl drawsrywiol i gyd yn waeth na chanfyddiadau ymatebwyr a gymerwyd yn gyffredinol.

Dylanwadu ar benderfyniadau: ystyrir bod pobl iau, anabl, trawsrywiol a Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael profiadau gwaeth o ran dylanwadu ar benderfyniadau. O ystyried profiadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae'r sefyllfa ar gyfer pobl anabl, LHD, a phobl drawsrywiol, yn waeth na chanfyddiad yr ymatebwyr yn gyffredinol.

Mynediad cymdeithasol, hamdden a mynediad i gefn gwlad: Ystyrir bod pobl anabl ac, i raddau llai, pobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, tra mae'r canlyniad ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau yn dangos ychydig iawn o amrywiant o'r sefyllfa ar gyfer y boblogaeth gyfan. Roedd y thema amlycaf yn ymwneud â materion hygrychedd i bobl anabl.

Mynediad at ofal a chymorth: ystyrir bod pobl hŷn yn cael profiadau gwaeth, gyda menywod beichiog neu'r rhai sydd â phlant ifanc yn cael gwell profiadau. Dangosodd y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain amrywiad mewn rhai achosion, gyda phrofiadau llawer gwaeth yn cael eu hadrodd gan bobl anabl, LHD a thrawsrywiol. Roedd gofawyr yn llawer mwy tebygol o feddwl bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael profiadau gwaeth.

Cyflogaeth: mae'r canlyniadau yn dangos y gallai nifer o grwpiau gael profiadau gwaeth - gyda phobl anabl, pobl hŷn, a'r rhai beichiog / gyda phlant bach yn dioddef waethaf. Dim ond dynion a phobl sengl a ystyrir fel rhai sy'n cael profiadau nad ydynt yn ddim gwell na gwaeth na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd (mae'r lleill i gyd yn waeth). O ystyried y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau eu hunain, mae Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, LHD, pobl iau, menywod a rhai trawsrywiol i gyd yn cael profiadau gwaeth na chanfyddiad yr ymatebwyr yn gyffredinol.

Cyd-fynd yn y gymuned: Ystyrir bod Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl, drawsrywiol a LHD i gyd yn cael profiadau gwaeth. Mae hyn hefyd yn wir am y canlyniadau a gyflwynwyd gan y grwpiau hyn eu hunain. Roedd themâu allweddol yn cynnwys: amharodrwydd i gymysgu ac ofni gwahaniaeth; problemau mynediad; ac anawsterau cyfathrebu sy'n codi o iaith (gan gynnwys hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a BSL).

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn y flwyddyn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 62,000 hectar, yn bennaf ar hyd 416 cilomedr o arfordir ac aber y Daugleddau, a bryniau hanesyddol y Preseli yng ngogledd y sir. Mae rhyw 24,000 o bobl yn byw yn y Parc, sydd hefyd yn croesawu rhyw 4.7 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr y flwyddyn.

Mae rhyw 16% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg, y mwyafrif ohonynt yn rhan ogleddol y Parc.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pembrokeshire Coast National Park Authority was established by the Environment Act 1995 as a single purpose local authority. It has the following purposes as defined by the Act:

- **gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwylt a'r dreftadaeth ddiwylliannol;**
- a
- **hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).**

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Âr Ddeddf yn ei blaen i ddweud bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol wrth ddiwallu dibenion y Parc Cenedlaethol, ac i'r diben hwnnw mae'r Parc i gydweithredu â'r awdurdodau lleol a'r cyrff cyhoeddus hynny y mae hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol yn rhan o'u dyletswyddau.

Yn ogystal, o dan Deddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly yn gyfrifol am baratoi Cynllun Rheoli'r Parc a'r Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Diben Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau chwarae teg i bawb yn ddiwahân drwy ganolbwyntio ar roi terfyn ar wahaniaethu, hybu cyfleoedd a chanlyniadau cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

Mae'r ddeddf yn disodli'r 116 o wahanol statudau blaenorol ar gydraddoldeb drwy greu un statud hollgynhwysol. Mae'r ddeddf yn symleiddio ac yn egluro rôl yr awdurdodau cyhoeddus fel arweinyddion ar wella cydraddoldeb ymhlith cymunedau a'u dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dyletswyddau penodol sy'n golygu gofynion manwl a heriol i awdurdodau, ond mae pwyslais cyffredinol ar dalu 'sylw dyledus' yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau ddod o hyd i atebion lleol penodol ac yn eu gwneud yn fwy atebol i'w cymunedau.

Pwy sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf?

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w gwarchod yn lle'r hyn y cyfeiriwyd atynt yn draddodiadol fel Meysydd Cydraddoldeb. Mae'r grwpiau hyn i'w gwarchod drwy gyfrwng dyletswyddau cyffredinol a phenodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred

Hefyd mae'r Ddeddf yn gymwys i briodasau a phartneriaethau sifil, ond dim ond o ran rhoi ystyriaeth briodol i'r angen am gael gwared ar wahaniaethu.

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r angen am:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall anghyfreithlon a waherddir gan y Ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo'r nodau hyn o gydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leddfu'r anfanteision a deimlir gan bobl oherwydd y nodweddion gwarchoddedig sydd ganddynt;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl y grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae nifer cymharol fychan ohonynt yn cyfranogi.

Dyletswyddau Penodol

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cwmpasu:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau mewn tâl
- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiadau Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion
Doc Penfro,
Sir Benfro
SA72 6DY

01646 624800
pcap@arfordirpenfro.org.uk
arfordirpenfro.cymru



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**